**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MB/MD/1812/14

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

2 May 2014

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Ebrill 2014 yn gofyn am eglurhad am nifer o faterion yn dilyn fy Ymateb Gweinidogol i ymchwiliad dilynol y Pwyllgor i'r ddarpariaeth ar gyfer lleihau'r risg o strôc.

Rwy wedi derbyn y llythyr amgaeedig oddi wrth Adam Cairns, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a Chadeirydd y Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc, yn amlinellu blaenoriaethau'r Grŵp Gweithredu dros y misoedd nesaf. Fe welwch y bydd yn rhoi gwybod y diweddaraf imi am yr amserlen. Byddaf yn anfon y manylion hyn a chopi o'i lythyr nesaf i'r Pwyllgor, cyn gynted ag y byddaf yn eu derbyn.

Rwy hefyd yn falch o roi gwybod fy mod newydd gymeradwyo'r swydd-ddisgrifiad ar gyfer penodi arweinydd clinigol dros dro ar gyfer gwasanaethau strôc. Caiff hwnnw ei gyhoeddi i bobl gael mynegi eu diddordeb yr wythnos hon. Bydd y swydd hon yn sicrhau bod y gwaith da sydd wedi'i wneud hyd yma gan Dr Anne Freeman yn parhau i fynd rhagddo ac yn cael ei ddatblygu; wrth iddi fynd at i gyfrannu mewn modd arall.

Mark Drakeford

**Mark Drakeford AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Service

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford @cymru.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*